

Y bwlch o ran rhywedd: lansio dangosyddion cydraddoldeb o ran rhywedd yng Nghymru

[View this post in English | Darllenwch yr erthygl yma yn Saesneg](#)

03/03/17

Cynhelir dadl flynyddol y Cynulliad ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod ar 7 Mawrth 2017.

Yn ddiweddar, [ragdybiodd](#) Fforwm Economaidd y Byd na fyddai'r bwlch o ran rhywedd ledled y byd yn cau am 170 mlynedd arall os parheir ar y gyfradd bresennol. Daeth y [DU yn ugeinfed allan o 144 gwlad](#) o fesur cydraddoldeb o ran rhywedd, a hynny ar sail amrywiaeth o ddangosyddion. Roedd yr Almaen, Norwy, Ffrainc, Iwerddon a Rwanda oll mewn safle uwch na'r DU.

Ond sut olwg sydd ar y bwlch o ran rhywedd yma yng Nghymru? Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio **set o ddangosyddion cydraddoldeb o ran rhywedd yng Nghymru** wedi'i seilio ar y dystiolaeth ystadegol orau sydd ar gael, er mwyn helpu Gweinidogion i graffu ar bolisiau, deddfwriaeth a chyllidebau o safbwynt rhywedd.

Mae gan ddynion a menywod brofiadau bywyd gwahanol (yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, yn economaidd ac yn fiolegol), ac mae hynny'n effeithio ar iechyd, addysg, cyflogaeth, incwm a chynrychiolaeth. Mae'r canlyniadau hyn hefyd yn cronni pan ystyrir ffactorau megis oedran, ethnigrwydd, anabledd, a rhywioldeb ymysg eraill. **Bydd penderfyniadau ar y materion hyn yn effeithio ar fenywod a dynion mewn gwahanol ffyrdd, yn dibynnu ar y man cychwyn.**

Amlinellir rhai o'r casgliadau a wnaed o'r set ddata isod.



POBLOGAETH

Poblogaeth



Disgwyliad bywyd ar adeg yr enedigaeth




Y boblogaeth


- Mae 51 y cant o boblogaeth Cymru yn fenywod, a 49 y cant yn ddynion; mae 53,000 yn rhagor o fenywod nag sydd o ddynion dros 65 oed;

GWAITH A CHYFLOGAETH

Cyfradd gweithgarwch economaidd




Cyfradd cyflogaeth rhan-amser



Cyfradd hunan-gyflogaeth



Hawlwyr budd-daliadau (o oedran gweithio)



Canran y sawl a gyflogir gan y sectorau sy'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru



canolrif fesul awr ar sail rhan-amser



Cyflog yr awr (heb gynnwys goramser)

Bwlch cyflog

canolrif fesul awr ar sail amser llawn



Cyflog yr awr (heb gynnwys goramser)

tâl fesul awr i bawb



Cyflog yr awr (heb gynnwys goramser)




Cyflogaeth ac incwm

- Mae menywod yn llai tebygol o fod yn **weithgar yn economaidd** nag ydyw dynion (72 y cant ar gyfer menywod o gymharu ag 83 y cant ar gyfer dynion). Mae'r **gyfradd cyflogaeth rhan-amser ar gyfer menywod yn 41 y cant o gymharu ag 13 y cant i ddynion**;
- Mae'r **bwllch cyflog o ran rhywedd** rhwng dynion a menywod yn 7.5 y cant ar gyfer gweithwyr amser llawn, a 15.7 y cant ar gyfer pob gweithiwr – golyga hyn bod menywod yn ennill 84 ceiniog am bob punt a enillir gan ddynion. Am bob punt a enillir yr awr gan ddynion sy'n gweithio amser llawn yng Nghymru, mae menywod yn ennill 93 ceiniog;
- Mae menywod yn llawer llai tebygol o fod yn rhan o gyfnod cynnar unrhyw **weithgarwch entrepreneuraidd** neu fod yn **hunan-gyflogedig** (mae dynion ddwywaith mor debygol o fod yn hunan-gyflogedig ag ydyw menywod), ac mae menywod ychydig yn fwy tebygol o fod yn hawlio budd-daliadau;
- Mae hanner yr holl fenywod sy'n gweithio yn cael eu cyflogi mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd, sy'n cyfrif am 72 y cant o'r gweithwyr yn y grŵp hwn. Mewn cyferbyniad, caiff dynion eu cyflogi ar draws gwahanol ddiwydiannau. **Mae menywod yn llai tebygol na dynion o weithio mewn sector sydd wedi'i flaenoriaethu gan Lywodraeth Cymru**, gan gynrychioli traean o'r gweithwyr a gyflogir yn y sectorau hyn.




IECHYD



Iechyd

- Mae dynion yn llawer mwy tebygol o fod yn ordew, ysmegu a diota mwy nag yr argymhellir, ac mae ganddynt ddisgwyliad oes byrach;
- Mae dynion hefyd yn llawer mwy tebygol o gyflawni hunan-laddiad, ond mae menywod yn fwy tebygol o dderbyn triniaeth am broblemau iechyd meddwl;

ADDYSG




Addysg a sgiliau

- Mae bechgyn yn llai tebygol o gael pum cymhwyster TGAU rhwng A*-C. Mae menywod rhwng 19–24 oed yn fwy tebygol o beidio bod mewn addysg, hyfforddiant



neu gyflogaeth (NEET) nag ydyw dynion. Fodd bynnag, rhwng 16–18 oed, maent ychydig yn llai tebygol o beidio bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth;

- Bu i 20 y cant yn fwy o fenywod na dynion dderbyn cymhwyster israddedig yng Nghymru yn 2014/15, ac roeddent yn yn fwy tebygol o gael eu derbyn ar raglenni prentisiaeth;




Cymunedau a chyfiawnder

- Bu i 8.3 y cant o fenywod rhwng 16–59 oed yng Nghymru ddioddef **cam-drin domestig** yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gan orffen ym mis Mawrth 2016), o gymharu â 4.3 y cant o ddynion. Yn y ffigur hwn, bu i 3 y cant o fenywod ddioddef **ymsodiad rhywiol**, o gymharu â 0.5 y cant o ddynion, bu i 6.5 y cant o fenywod ddioddef **cam-drin gan bartner**, o gymharu â 2.7 y cant o ddynion, a bu i 4.4 y cant o fenywod ddioddef **stelcio**, o gymharu â 3.5 y cant o ddynion;
- Mae merched yn fwy tebygol o fod yn **ddigartref** ac yn flaenoriaeth o ran angen, tra bo dynion yn fwy tebygol o fod yn ddigartref heb fod yn flaenoriaeth o ran angen;
- **Nid yw cyfraddau o ran tlodi yn neilltuol wahanol** rhwng menywod a dynion, ond mae tai sydd mewn perygl mawr o dlodi, fel yn achos tai un rhiant, yn llawer mwy tebygol o fod dan ofal menywod.



CYTRYCHIOLAETH



Cynrychiolaeth

- Mae'r gyfran o **Aelodau'r Cynulliad** sy'n fenywod wedi disgyn i 41.7 y cant (o [50 y cant yn 2003](#)), ac mae'r gyfran yn 33 y cant o ran **Ysgrifenyddion y Cabinet** sy'n fenywod. Mae gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn Senedd y DU [un o'r cyfrannau isaf](#) o ran Aelodau Seneddol sy'n fenywod, sef un (9 y cant);
- O ran **Llywodraeth Leol**, dim ond 18 y cant o brif weithredwyr sy'n fenywod, a 27 y cant o gynghorwyr sy'n fenywod. Mae hyn mewn cyferbyniad llwyr â staff awdurdodau lleol, oedd â 72 y cant yn fenywod yn 2014;
- Yn 2014, dim ond 2 y cant allan o **100 busnes gorau Cymru** oedd â phrif weithredwr oedd yn fenyw.

Pa ddangosyddion eraill a hoffech weld eu cynnwys? Pa ddata sydd ddim yn cael ei gasglu ar hyn o bryd ar lefel Cymru, neu a ddatgrynhoir o ran rhyw?




Dangosyddion Cydraddoldeb o ran Rhywedd CYMRU




Mae maint y lluniau yn cynrychioli'r gwahaniaeth mewn canran rhwng y figyrau. Mae'r llun mwyaf yn cynrychioli'r ffigur mwyaf bob tro, a gasodir y llun lleiaf yn gymesur â hynny.


POBLOGAETH




IECHYD




GWAITH A CHYFLOGAETH




ADDYSG



CYMUNEDAU A CHYFIAWNDER



CYNRYCHIOLAETH



Cyhoeddiad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Erthygl gan [Hannah Johnson](#), [David Millett](#) a [Gareth Thomas](#), Gwasanaeth
Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru

